Teitl y Swydd: Rheolwr Prosiect

Uned/Ysgol: Cynllunio Strategol a Phrosiectau

Gradd: 7A/B

HERA:

**Prif bwrpas y rôl**

Mae hon yn rôl newydd i gefnogi datblygiad a gweithrediad nifer o brosiectau newid strategol newydd.

Bydd deiliad y rôl yn gweithio yn yr adran Cynllunio Strategol a Phrosiectau newydd ei chreu ac yn cydweithio'n agos â chydweithwyr uwch ar draws y Brifysgol, yn enwedig yr Ysgolion academaidd, TG, y Gofrestrfa a Marchnata, Cyfathrebu a Recriwtio Myfyrwyr. Gan weithio yn nhîm craidd y Swyddfa Prosiectau Strategol byddwch yn cymryd yr awenau wrth reoli prosiectau allweddol.

Bydd y Rheolwr Prosiect yn gweithredu fel cyswllt allweddol rhwng y gwasanaethau academaidd, TG/technegol a phartneriaid allanol. Mae'r swydd yn galw am fewnwelediad strategol a menter ymarferol, gyda'r gallu i reoli cymhlethdod, meithrin cydweithio, a sicrhau cydlyniad â fframweithiau sefydliadol, cyllidwyr a rheoleiddiol. Byddwch yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid ar draws y Brifysgol, gan gynnwys timau TG, adrannau academaidd, ac uwch noddwyr, i sicrhau bod prosiectau'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol ac anghenion defnyddwyr. Bydd eich gallu i arwain timau traws-swyddogaethol, rheoli risgiau, a chyfathrebu'n effeithiol yn allweddol i'ch llwyddiant.

Bydd gennych brofiad blaenorol o reoli prosiectau a nifer o fentrau ar yr un pryd, sgiliau ymgysylltu a chyfathrebu cryf â rhanddeiliaid, galluoedd trefnu a dadansoddol rhagorol, meddylfryd ystwyth gyda ffocws ar welliant parhaus a chydweithio a gradd neu gymhwyster neu brofiad cyfatebol, yn ddelfrydol gyda chymwysterau rheoli prosiectau proffesiynol. Mae profiad o reoli prosiectau yn y sector addysg uwch yn ddymunol.

**Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol**

- Cefnogi noddwyr prosiectau a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu achosion busnes gan ddeall yn llawn yr hyn sydd angen ei gyflawni drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau digidol sy'n cyflawni newid strategol yn y Brifysgol.
- Cyfrifoldeb dros reoli prosiectau o ddydd i ddydd, gan gynnwys cyfrifoldeb am bob cam o gylchred oes y prosiect, o'r diffiniad, y cwmpasu a'r cynllunio, rheoli risg hyd at weithredu a chau, gan sicrhau bod gwelliannau mesuradwy wedi'u hymgorffori yn y busnes fel arfer.
- Darparu arweinyddiaeth effeithiol i dîm y prosiect gan sicrhau bod aelodau'r tîm yn frwdfrydig ac yn datblygu eu sgiliau a'u profiad.
- Datblygu, gweithredu a rheoli cynlluniau prosiect cynhwysfawr, gan ddefnyddio methodolegau rheoli prosiectau sefydledig i sicrhau bod canlyniadau o ansawdd a manteision busnes yn cael eu cyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb, gan neilltuo gwaith i'w gwblhau i unigolion o fewn TG a thimau prosiect ehangach.

- Gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Gyfarwyddiaeth, gan gynnwys rheolwyr prosiectau eraill, rheolwyr rhaglenni a dadansoddwyr busnes i sicrhau rhyngddibyniaethau a dealltwriaeth o'r rhaglen lawn o brosiectau newid strategol a datblygu arfer gorau.
- Rheoli cyllidebau'r prosiectau o fewn goddefiannau y cytunwyd arnynt drwy ragweld gofynion, amserlennu gwariant, dadansoddi amrywiannau a chychwyn camau cywirol.

**Manyleb person**

**Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol**

- Addysg i lefel Gradd neu gyfwerth.
- Wedi cwblhau hyfforddiant ffurfiol mewn rheoli prosiectau (e.e. PRINCE 2, Agile).

**Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol**

1. Gwybodaeth ragorol am theori rheoli prosiectau a'i gweithredu'n ymarferol.
2. Gwybodaeth amlwg am natur gyd-gysylltiedig systemau gwybodaeth modern a natur gymhleth prosiectau.
3. Sgiliau cyfathrebu datblygedig iawn, gan gynnwys y gallu i ysgrifennu achosion busnes, drafftio adroddiadau a chyflwyno gwybodaeth gymhleth yn glir ac yn gryno mewn modd sy'n briodol i'r gynulleidfa.
4. Gallu amlwg i arwain, datblygu, rheoli a chymell timau ac unigolion i gyflawni amcanion.
5. Gallu amlwg i drefnu a rheoli llwyth gwaith prysur i gwrdd â therfynau amser heb beryglu ansawdd.
6. Gallu blaenorol i weithio ar eich menter eich hun, gan gynllunio gwaith eich hun a gwaith eraill.
7. Profiad o adeiladu perthnasoedd a rhwydweithiau mewnol ac allanol cynhyrchiol.
8. Profiad ymarferol o gasglu gofynion defnyddwyr, dadansoddi a modelu prosesau busnes a thechnegau gwerthuso opsiynau.
9. Profiad o ddatblygu achosion busnes gyda gwireddu manteision cysylltiedig.
10. Profiad sylweddol o reoli prosiectau newid cymhleth, traws-sefydliadol lluosog.
11. Profiad o gymhwyso methodoleg ac offer rheoli prosiectau cydnabyddedig yn ôl yr angen i brosiectau.

**Dymunol**

1. Profiad o weithio mewn amgylchedd addysg uwch.
2. Cymwysterau proffesiynol ychwanegol, e.e. Ymarferydd MSP.

**Gofynion sgiliau Cymraeg**

Mae’r Gymraeg yn hanfodol i’n myfyrwyr a’n staff ac mae’n rhan allweddol o’n darpariaeth a’n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau Cymraeg. Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hyn glir yn eich ffurflen gais ar-lein.

| Lefel iaith a disgrifydd | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **A1 – Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | Dymunol | Dymunol | Dymunol | Dymunol |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol**<br>Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | | | | |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd**<br>Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | | | | |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br>Yn gallu mynegi fy hun yn y Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol. | | | | |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg. | | | | |
| **C2 - Meistrolaeth**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg. | | | | |

**Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**
Nid oes angen gwiriad DBS ar gyfer y swydd hon.

**Gwybodaeth ategol**
Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Fetropolitan Caerdydd.